tafod elái

EBRILL 2016

Rhif 306

Pris 80c

Daeth disgyblion o ysgolion cynradd Pen-y-bont, Taf ac Elái ynghyd ar fore Sadwrn ym mis Mawrth yn Ysgol Cynwyd Sant, Maesteg i recordio cân yr Urdd dan arweiniad Dyfrig Ellis a Gavin Ashcorft. Diolch yn fawr i ddisgyblion Ysgol Cynwyd Sant, Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, Ysgol y Ferch o'r Sgêr, Ysgol Dolau, Ysgol Gymraeg Tonyrefail, Ysgol Gynradd Gartholwg, Ysgol Gynradd Llanhari ac Ysgol Gymraeg Llantrisant am gymryd rhan!

Mae'r gân 'Dewch Draw' yn swnio'n ffantastig. Mi fydd ar werth yn fuan iawn felly cadwch lygad allan amdano yma ac ar Facebook a Twitter.



Nos Wener y 17eg o Fehefin, bydd Cinio Gala'r Pwyllgor Gwaith yn cael ei chynnal yng Ngwesty'r Fro. Mi fydd hwn yn noson arbennig yng nghwmni'r band Footloose a Chris Jones (Tywydd) i godi arian i Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái, 2017. Bydd raffl, arwerthiant ac ambell i sypreis! Prynwch docyn nawr cyn iddynt werthu allan. £50 i gynnwys Derbyniad Siampên a 4 pryd 4 cwrs! Cysylltwch â Tegwen Ellis –tegwen65@aol.co.uk / 07971 477239 i brynu tocyn unigol / bwrdd o 10.

Merched y Wawr Cangen y Garth

Derrick Thomas a'i ferch, Emma, a fu'n rhoi datganiad yn y Carpenter's, Efail Isaf i ddathlu bywyd ei dad-cu, Tom Bryant, telynor o fri. (Tudalen 6)

Cyfarfod 'Dathlu Dewi'

Do wir - fe gafwyd sgŵp yn ôl yr addewid! Cynhaliwyd ein cyfarfod mis Mawrth yng Nghapel y Tabernacl ar ei hyfryd, newydd wedd. Llawer yn gweld oddi mewn i'r Capel am y tro cyntaf. Braf oedd cael croesawu nifer o'r gwŷr i'n plith - hwythau hefyd wedi mwynhau y wledd gerddorol a'r danteithion i ddilyn. Mae 'na biano arbennig iawn yn y Tabernacl bellach - *grand piano* - diolch i haelioni un o garedigion y pentre, felly roedd hi mor braf croesawu y pianydd ifanc Charlotte Kwok i chwarae i ni. Bydd llawer yn gyfarwydd â gweld a chlywed Charlotte ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd. A hithau ond yn naw oed mae hi wedi ennill yr unawd piano dan 12 - ddwy waith! Ym mis Chwefror bu ym Mhalas Buckingham yn chwarae i'r Frenhines - neb llai! Ac yn ysgwyd llaw efo Shirley Bassey. Ond nid un seren fach gawson ni ar y noson - ond tair! Agorwyd y cyngerdd gan yr efeilliaid bach - chwech oed! - Yola a Melody Kwok yn chwarae deuawd - *Rhapsodi Hwngaraidd* Liszt. Yna unawd gan Yola ac unawd o'r enw *Dawns y Gwrachod*, Kullak gan Melody. Wel - am gymeriadau! Mor annwyl - mor dalentog - mor gartrefol! Yna daeth Charlotte at y piano a rhoddodd berfformiad gwefreiddiol i ni. Dau ddarn o waith Frank Bridge a'r *Sonata yn D leiaf* gan Scarlatti. Hollol anhygoel! A hithau'n cyfaddef i ymarfer am awr yn unig bob dydd! 'Dyn ni mor ddiolchgar i Mr Gareth Evans, prifathro Ysgol Dolau am ganiatau i'w ddisgyblion ddod atom i berfformio ac i rieni Charlotte, Yola a Melody sef Chui Au a Nicholas Kwok am eu cwmni. Cofiwch yr enwau - bydd y merched bach yma'n sêr! Pob llwyddiant iddynt eu tair!

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Tripiau
Ddydd Gwener deunawfed o Fawrth, fe aeth disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 ar ymweliad â Pharc Treftadaeth y Rhondda. Cafwyd cyfle i fynd tan-ddaear gyda Graham, cyn lowr o'r pwll glo. Diddanwyd y plant â phob math o straeon, gan gynnwys rhai'n ymwneud â llygoden fawr! Yn ogystal â'r trip tan ddaear, bu'r plant yn cymryd rhan mewn gweithdai celf; yn lluniadu gan ddefnyddio golosg a chreu helmed ddu.

Fel rhan o'u gwaith hwythau, mi fu disgyblion Blynyddoedd 1 a 2 yn ymweld â Chastell Caerffili lle cawsant daith o gwmpas y castell a gweithdy'n seiliedig ar wledd y brenin.

Diwrnod y Llyfr

Eleni eto, mi fuom yn dathlu Diwrnod y Llyfr. Fe ddaeth pawb i'r ysgol wedi'u gwisgo fel cymeriadau o lyfrau a bu pob dosbarth wrthi'n cyflawni amrywiaeth o weithgareddau'n seiliedig ar ddarllen. Fel rhan o'r dathliadau, fe ymwelodd yr actor a'r awdur Dafydd Emyr â Blynyddoedd 5 a 6 er mwyn cynnal gweithdai ar ddweud stori ac ysgrifennu creadigol. Roedd ei frwdfrydedd tuag at iaith yn amlwg ac roedd pawb wrth eu boddau yn clywed ei storiau bywiog a diddorol!

Gweithgareddau Pasg
Ar y 29ain o Chwefror, fe aeth disgyblion Blwyddyn 6 i Gapel Bethel ym Mhontyclun er mwyn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau Pasg. Roedd y plant wrth eu boddau a diolch i'r eglwys am drefnu unwaith eto eleni.

Eisteddfod Sir
Llongyfarchadau mawr i'r holl ddisgyblion fu'n cystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mhorthcawl, yn ddiweddar. Dyma'r canlyniadau:
Medi Adams – ail am Unawd Blwyddyn 3 a 4
Seth Thomas – ail am Unawd Blwyddyn 2 ac Iau. Ela Edwards ac Alys Thomas – cyntaf am y Ddeuawd Blwyddyn 6 ac Iau.
Alys Thomas – cyntaf am Unawd Blwyddyn 5 a 6, cyntaf am Lefaru Blwyddyn 5 a 6 a cyntaf am yr Unawd Alaw Werin Blwyddyn 6 ac Iau

Ymweld â Chastell Caerffili

Ifan Roberts – cyntaf am Lefaru Blwyddyn 3 a 4. Geraint Barnes – cyntaf am Lefaru Blwyddyn 2 ac Iau

Bydd nifer dda yn teithio i'r Fflint ar ddechrau mis Mehefin, felly. Da iawn chi!

Diogelwch ar y Rhyngrwyd
Fe ddaeth PC Evans i'r ysgol ar y pedwerydd o Fawrth er mwyn trafod diogelwch ar y Rhyngrwyd gyda Blwyddyn 5. Cafwyd trafodaeth fuddiol iawn ar sut i gadw'n ddiogel wrth fynd ar lein.

Masnach Deg
Fel rhan o bythefnos Masnach Deg fe drefnwyd bore coffi a stondyn nwyddau Masnach Deg yn Neuadd yr Ysgol ar yr unfed ar ddeg o Fawrth. Diolch i Miss Jones

am drefnu ac i bawb ddaeth i gefnogi.

Sêr Darllen yr Uwch Gynghrair
Ar y 23ain o Fawrth fe aeth criw o ddisgyblion ar ymweliad ag Amgueddfa Abertawe i gymryd rhan mewn gweithday "Diwrnod Awdur". Yn ystod yr ymweliad cafwyd taith ac amrywiol weithgareddau o gwmpas yr Amgueddfa, yn ogystal â gweithdy dan ofal Aneirin Karadog. Roedd yr ymweliad yn rhan o gynllun i hyrwyddo darllen sy'n cael ei gynnal o fewn yr ysgol yn wythnosol ac roedd pawb wedi mwynhau'n fawr.

Y Côr
Bu Côr yr Ysgol yn perfformio mewn cyngerdd Gŵyl Ddewi gyda Chôr Meibion Llantrisant, yn Eglwys Gatholig All Hallows yn ddiweddar.

Chwaraeon
Ar Fawrth y degfed bu'r ysgol yn cystadlu mewn cystadleuaeth pêl-rwyd yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant. Lwyddodd y Tîm Coch i ddod yn bedwerydd yn y rownd derfynol. Da iawn nhw. Llongyfarchiadau mawr hefyd i dîm rygbi YGGG Llantrisant ar gyrraedd y rownd derfynol yng nghystadleuaeth Ysgolion Cymru WRU. Llwyddodd y tîm i ennill 7 gêm yn Dunvant a byddant nawr yn chwarae yn Stadiwm Principality ar ddydd Mercher 13eg o Ebrill. Pob lwc i chi fechgyn!

Raffl Pasg
Eleni eto, fe gynhaliodd y Gymdeithas Rieni Raffl Pasg fawreddog. Roedd gwobr i ddau ddisgybl o bob dosbarth, ond fe enillwyd y prif wobr sef ŵy Pasg enfawr, gan Seren Binning o Ddosbarth 4.



CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

Croeso cynnes!
'Nol ym mis Awst daeth pâr bach o Gymry da i fyw i Maes y Dderwen! Meleri a Robert Light - Meleri o Langristiolus a Rob o Nelson. Ond jyst cyn 'Dolig cyrhaeddodd Noa i wneud y teulu'n gyflawn. Ac mae e'n gariad bach! Ganed Noa Samuel Owen Light ar yr 11eg o Ragfyr, 2015. Ŵyr cyntaf i Bryan a Nia Owen, Llangristiolus, Ynys Môn a Leonard a Wendy Light, Nelson, Caerffili. Carai'r teulu ddiolch i Ysbyty Brenhinol Morgannwg am y gofal gwych. Athrawes Gymraeg yn Ysgol Glantaf yw Meleri ac mae Rob (oedd yn aelod o'r grŵp Radio Feynman - cofio nhw ar 'Cân i Gymru'?) yn gweithio i gwmni Orchard Media. Pob hapusrwydd deulu bach - siwr y gwnewch fwynhau bywyd y pentre'.

Colli teulu o Gymry - dros dro!
Creigiau ar ei golled - Dubai ar ei ennill! Ddechrau'r flwyddyn gadawodd Dave a Luned (Clements gynt!) a'r merched bach Lea Mai, Betsan ac Esther am haul Dubai. Gwaith Dave sydd wedi mynd â nhw yno - am gyfnod. Bellach maen nhw wedi setlo yn eu cartref newydd - a Betsan yn Si-lwli Dubai tra bo Lea Mai yn yr Ysgol Ryngwladol. (Tybed ai dyna lle ma' Geraint Passmore yn athro?). Esther fach, yng ngeiriau Mam-gu '*yn gorfod wisan ambothdi yn y car gyda'i Mam yn casglu'r ddwy arall a mynd o un lle i'r nall. Ond yn ddigon hapus*!' Pob hapusrwydd i chi deulu bach - beth am anfon 'chydig o'ch hanes (a llunie) i ni gael rhannu eich profiadau? Braf eich byd - fyddwch chi ddim yn brin o ymwelwyr!

Colli cymeriad
Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Meryl, Gareth a Jonathan Prosser. Bu farw Jim ddiwedd mis Chwefror wedi gwaeledd hir a chreulon. Cafodd ofal tyner gan Meryl a'r bechgyn hyd y diwedd. Cofiwn Jim fel y cymeriad tawel, llawn himwor, fu'n gwasanaethu ar y Cyngor yma am flynyddoedd. Deuai Jim o ardal Abertawe ond bu'n byw yma'n y Creigiau gyda Meryl ei wraig am ddegawdau yn magu eu plant Gareth a Jonathan. Roedd yn aelod brwd o Gantorion Creigiau. Cynhaliwyd gwasanaeth i gofio am fywyd Jim yn Amlosgfa Llangrallo fore Iau, y 10fed o Fawrth. Cafodd angladd teilwng iawn gyda Chantorion Creigiau yn canu *Cwm Rhondda* a '*Can't help loving dat man*'. Talwyd nifer o deyrngedau iddo - un yn arbennig gan yr Athro Emeritws Delme Bowen. Yn meddwl amdanoch.

Hawl i'r Gymraeg

O'r 30ain o Fawrth bydd gennych chi'r hawl i gael gwersi nofio yn Gymraeg! Cysylltwch â'ch canolfan hamdden leol heddiw i ddefnyddio eich hawl newydd! Mae rhifau ffôn bob cyngor, a mwy o fanylion am y Safonau, i'w gweld yma: http://cymdeithas.cymru/fyhawl

Pan ddaw'r set gyntaf o Safonau Iaith i rym ar y 30ain o Fawrth, bydd gan bawb* yr hawl i gael gwersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn canolfannau hamdden a reolir gan, neu sy'n cael eu rhedeg drwy gytundeb gyda, y cyngor sir.

Ar ddechrau 2015, pasiodd y Cynulliad hawliau newydd i'r Gymraeg (rheoliadau sy'n cael eu galw Safonau'r Gymraeg). Mae dros 100 o hawliau i'r Gymraeg yn y rheoliadau – o'r hawl i ohebiaeth Gymraeg, peiriannau hunanwasanaeth Cymraeg, dysgu'r Gymraeg yn y gweithle i gyrsiau yn Gymraeg.

Un o'r hawliau newydd hynny i'r Gymraeg ydy'r hawl i gyrsiau addysg yn Gymraeg, sy'n cynnwys gwersi nofio:

"Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg."*** (Safon 84, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015)

Yn gywir,
Manon Elin
@grwphawl
http://cymdeithas.cymru/fyhawl
http://facebook.com/cymdeithas
http://instagram.com/cymdeithas

*Mae Cyngor Nedd Port Talbot wedi cyflwyno her gyfreithiol i'r Safon yma, felly ni fydd yr hawl yn weithredol nes fod yr apêl wedi cael ei dyfarnu. Mae amod ar yr hawl yn y rhan fwyaf o siroedd sy'n golygu nad oes rhaid cynnig y cwrs os oes asesiad wedi ei gynnal gan y cyngor sy'n dangos nad oes galw am y cwrs yn Gymraeg. Does dim amod o'r fath ym Mhowys na Gwynedd, felly mae rhaid iddyn nhw gynnig gwersi yn Gymraeg bob tro.
**Ystyr 'cwrs' yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd..."

Diwrnod y Llyfr Ysgol Llantrisant

Priodas Ddeiamwnt Avril a Don Llewellyn

Priodas Helen Wynne Ashmore a Tom Wrathmell (Tudalen 5)

Llantrisant (Tudalen 7)

Sioned Scott

Khaled Abdul, perchennog newydd tŷ bwyta 'The New Raj'

Ysgol Tonyrefail
(Tudalen 11)

Enillwyr Eisteddfod yr Ysgol

ac
Ella Thomas yn ennill y Gadair

Diwrnod y Llyfr

Blw 1 gyda Chi y Ddraig

Megan Williams

Rhys Griffiths

Dydd Gŵyl Dewi agorwyd arddangosfa am weithgareddau Merched y Wawr yng Nghaerdydd. Ewch i'w weld ar lawr isaf Yr Hen Lyfrgell yn ystod mis Ebrill.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad didwyll i Dewi Hughes, Deri ,Cerian a'r teulu yn dilyn marwolaeth Mr. Edgar Walters, tad y diweddar Haulwen, yn Llanymddyfri yn 91 oed wedi cystudd hir.

Priodas (Llun tudalen 4)
Ar ddiwrnod heulog ddechrau Hydref yng Nghadeirlan Llandaf priodwyd Helen Wynne Ashmore a Tom Wrathmell. Cafwyd gwledd briodas hyfryd i ddilyn yng Nghastell Hensol ar gyfer 140 o westeion. Helen yw unig ferch David ac Anne Ashmore, Troed - y - Garth, ac mae Tom, y priodfab, yn fab i Mr. a Mrs. Brian Wrathmell, Woking, Surrey. Edrychai'r briodferch yn odidog mewn ffrog briodas o waith Suzanne Neville, Knightsbridge, a chyda hi roedd pedair morwyn briodas, ffrindiau o ddyddiau prifysgol ym Mryste ac yn Ysgol y Gyfraith Nottingham. Ffrindiau'r priodfab o ddyddiau Ysgol Westminster a Phrifysgol Rhydychen oedd y gweision priodas a'r tywyswyr.

Arweiniwyd y gwasanaeth dwyieithog yn y Gadeirlan gan y Canon Graham Holcombe sydd wedi adnabod Helen ers ei phlentyndod, a'r organydd oedd David Thomas, ei hathro cerdd o ddyddiau Ysgol Howell's Llandaf. Cafwyd perfformiad gogoneddus gan Fechgyn Bro Taf wrth i'r pâr priod arwyddo'r gofrestr.

Mae Helen yn uwch - gwnsler cyfreithiol gyda Centrica PLC a Tom yn Bennaeth Strategaeth Cerdd a Radio gyda'r BBC yn Llundain. Treuliodd y ddau fis mêl byr yng Ngwlad Thai yn union wedi'r briodas ac maent newydd ddychwelyd o'u gwir fis mêl yn India ddechrau'r flwyddyn. Maent wedi ymgartrefu yn Earlsfield, De Orllewin Llundain. Dymunwn yn dda iddynt ar gyfer dyfodol llawn dedwyddwch gyda'i gilydd. (AA)

Marathon Llundain
Mae Bethan Griffith a Carol Owen yn brysur yn ymarfer a pharatoi ar gyfer Marathon Llundain ddydd Sul, 24 Ebrill. Mae'r ddwy yn gobeithio codi £1,000 yr un ar gyfer yr NSPCC. Os hoffech eu noddi, mae modd gwneud hynny trwy "Virgin Money Giving" gan nodi eu henwau er mwyn cyrraedd eu tudalennau. Maent wedi rhedeg Marathon Caeredin ac Amsterdam yn 2012 a 2013 ond sylw Bethan oedd, "Byth eto!" Dymunwn yn dda i'r ddwy wrth redeg y ras ac yn eu hymdrech i godi'r arian i'r NSPCC .

Rifiw Clwb y Dwrlyn
Unwaith eto, dan arweiniad meistrolgar Nia a Colin cynhaliwyd rifiw i'w gofio yng Nghlwb Rygbi Pentyrch ddiwedd Chwefror. Fel arfer cafodd y gynulleidfa ei harwain i sawl cyfeiriad gwahanol a gwallgo gyda themau mor amrywiol â gobaith (neu ddiflastod) pedair menyw landeg wrth chwilio am ŵr, a chwis teledu gyda Sarah Palin a Donald Trump. Yn wir gwelwyd Trump am yr eildro gyda Putin yn trafod eu rhagfarnau. Bu 'trafodaeth' am seddi newydd y Tabernacl yn ogystal ag ymddangosiad gan y cyhoeddwr difrifol. Daeth 'ymwelwyr' o'r Wladfa ac fe gafwyd deialog fwyseiriau (ydy Dylan Jones mewn perygl?) Wrth gwrs, roedd ein 'Dave Allen' ni ar ei orau unwaith eto ond nid trefn oedd yn amlwg yn sgets pwyllgor y Dwrlyn amdanyn nhw'u hunain!

Llawer o ddiolch i bawb a fu wrthi'n ysgrifennu a pharatoi ymlaen llaw yn ogystal â'r criw niferus a fu'n cymryd rhan yn y noson o chwerthin iach. Diolch yn arbennig i Nia a Colin am gydlynu'r cyfan. Edrychwn mlân yn awr at y flwyddyn nesaf. Fel yng nghân gloi Ann Dwynwen -

Wel diolch am gael chwerthin
Ac am gael canu cân,
Ynghanol gaeaf diflas
Mae'n well na golau'r tân.
Mae'n braf cael codi allan
I joio'n braf mas draw
Heb boeni am y gwyntoedd
Na chlywed sŵn y glaw.

Dathlu Priodas Ddeimwnt
Cynhaliwyd parti yng Nghlwb Rygbi Pentyrch ddydd Sul, 20 Mawrth i nodi carreg filltir hynod o bwysig ym mywydau dau o drigolion lleol. Mae gan Don Llewellyn wreiddiau dwfn iawn ym Mhentyrch - tra daeth Avril i'r pentref i fyw pan oedd hi'n 16 oed. Dathlodd Don ac Avril eu priodas ddiemwnt gyda dros 120 o westeion a chyn bo hir roedd y lle bron yn barod i fyrstio! Yn rhedeg ar y sgrin fawr oedd cyfres o ddelweddau yn darlunio bywyd y pâr. Huw Llywelyn Davies oedd cyflwynydd y gweithgareddau a soniodd am y ffaith mai Avril a Don oedd wedi ei berswadio ef a Carol i ddod i Bentyrch i fyw yn y saith degau. Wedyn cafwyd teyrnged gan Denis Murphy - hen ffrind i Avril a Don. Siaradodd Don ar ran ef ei hun ac Avril a gwnaeth yn glir mai cyfuniad o gariad a pharch oedd sail gref eu perthynas personol. Bu Don yn gyfarwyddwr ffilm a theledu ac oddi ar ei ymddeoliad mae'r ddau ohonynt yn cadw'n heini. Er ei bod bron yn 82 oed mae Avril yn lein-ddawnsio unwaith yr wythnos! Ers y diwrnod arbennig ym 1956 a'u mis mêl ym Mharis, mae Don ac Avril wedi teithio'n eang i sawl rhan o'r byd ond maent yn dal i ystyried bod cerdded dros y Garth cystal ag unrhywle. Erbyn hyn, mae gan y bartneriaeth yma 14 o wyrion a gor-wyrion. Roedd y plant yn y parti - yn cynnwys yr efeilliaid 10mis oed, Odin a Lexi (a hwythau'n dwyn sylw pawb drwy gydol y prynhawn!)

Llongyfarchiadau gwresog iddynt ac ymlaen at y platinum!

Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg

Annwyl Olygydd,
Ar 30 Mawrth eleni fe ddaeth y set cyntaf o safonau'r Gymraeg yn weithredol. Y safonau hyn sy'n dweud beth ddylai sefydliadau ei wneud yn Gymraeg.

Mae'r safonau'n creu hawliau newydd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
Cynghorau sir, Llywodraeth Cymru a'r parciau cenedlaethol yw'r sefydliadau cyntaf i weithredu'r safonau. Dros amser fe fyddant yn cael eu cyflwyno i sefydliadau a sectorau eraill, mewn meysydd fel iechyd, addysg ôl-16, trafnidiaeth cyhoeddus, ynni, gwasanaethau post, tai cymdeithasol, telegyfathrebu a llawer mwy.

Mae safonau'n seiliedig ar gyfraith gwlad; ac mae dyletswydd ar sefydliadau i gydymffurfio â nhw. Dylent roi ffydd i chi y gallwch ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau sy'n gweithredu safonau. Os nad ydych wedi gallu derbyn gwasanaeth Cymraeg boddhaol ganddynt, cysylltwch â mi i gwyno.

I ddysgu mwy am eich hawliau ewch i'r dudalen 'Hawliau i Ddefnyddio'r Gymraeg' ar wefan - **comisiynyddygymraeg.cymru** a dilyn a defnyddio #hawliau ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Mae croeso i chi hefyd gysylltu â ni ar y ffôn neu'n ysgrifenedig (manylion islaw).

Os ydych yn ysgrifennydd neu'n drefnydd grŵp neu fudiad cymunedol ac yn dymuno fy mod i neu un o'm swyddogion yn dod i siarad am eich hawliau iaith, yna mae croeso mawr i chi gysylltu ac fe drefnwn ymweliad.
Yn gywir,
Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair,
Caerdydd, CF10 1AT
post@comisiynyddygymraeg.cymru /
0845 6033221

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Arholiad Piano
Llongyfarchiadau gwresog i Eleri, merch Alun a Bethan Roberts, Nantcelyn, ar ei llwyddiant yn pasio arholiad Piano Gradd 8 gydag anrhydedd. Tua'r un adeg roedd Eleri'n dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Llongyfarchiadau mawr i ti.

Noson i'w Chofio
Trefnodd y Pwyllgor sy'n codi arian i gefnogi Eisteddfod genedlaethol yr Urdd ym Mhenybont ar Ogwr noson lwyddiannus yn Neuadd Dowlais, nos Sadwrn, Mawrth 12fed. Er i dîm rygbi Cymru golli i'r Saeson yn gynharach yn y dydd fe lwyddodd yr adloniant godi calon y gynulleidfa a ddaeth ynghyd. Cyflwynwyd rhaglen o ganeuon gwerin yn gelfydd iawn gan Fand Nantgarw – rhyw ddwsin o bobl ifanc talentog yn canu amrywiaeth o offerynnau gan swyno pawb â'u miwsig bywiog a hwyliog. Byddai'n braf cael clywed y grŵp yma'n amlach yn yr ardal. Dilynwyd y band gan Bryn Fôn, ac fe swynodd yntau ni â'i ganeuon. Cyn diwedd y noson roedd pawb yn cyd-ganu a dawnsio'n frwdfrydig i ganeuon poblogaidd Bryn.

Noson Cadwgan
Tro Cymdeithas Gymraeg Llantrisant oedd trefnu cyfarfod Cylch Cadwgan nos Wener, Mawrth 11eg yng Nghanolfan y Tabernacl. Alan James oedd llywydd y noson ac fe gyflwynodd a chroesawu'r gŵr gwadd, Yr Athro E Wyn James o Gaerdydd i'n plith. Testun ei sgwrs oedd "Williams Pantycelyn ac Ann Griffiths a Llenyddiaeth y Mudiad cenhadol". Agorwyd ein llygaid i'r byd cenhadol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Pwnc a oedd yn ddieithr iawn i mi'n bersonol a chafwyd trafodaeth fywiog ar ddiwedd y sesiwn.

Telynor yn dychwelyd i'w wreiddiau
Trefnodd ŵyr y telynor enwog Tom Bryant noson i ddathlu yn Nhafarn y Carpenters, nos Sul yr ugeinfed o Fawrth. Teithiodd Derrick Thomas o Southampton ynghyd â'i deulu o Florida i'r Efail Isaf i ddadorchuddio plât ar wal y dafarn lle ganwyd ei dad-cu Tom Bryant. Dechreuodd Tom Bryant ganu'r delyn yn bedair oed. Enillodd chwe gwaith yn olynol ar yr unawd telyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol a bu'n aelod o Gerddorfa Genedlaethol Cymru yn nhri degau'r ganrif ddiwethaf. Mae bedd Tom Bryant ym mynwent Y Tabernacl. Mae'n amlwg i'w ŵyr, Derrick, etifeddu ei ddawn gan inni fwynhau orig o gerddoriaeth glasurol ar y delyn a darnau gan y cerddor Cymreig, John Thomas. Fe ymunodd Emma, merch Derrick, â'i thad i ganu deuawdau ar y ffliwt a'r delyn gan swyno'r gynulleidfa. Mae'n amlwg fod y ddawn gerddorol yn y genynnau gan i Sarah, wyres Derrick, hefyd ganu unawd yn swynol dros ben. Bu'n noson hyfryd o goffau a dathlu bywyd a chelfyddyd Tom Bryant. (Llun tudalen 1)

Y TABERNACL
Bedyddio
Golygfa bur anghyffredin a brofwyd yn Y Tabernacl fore Sul Mawrth 6ed. Daeth pump o ieuenctid y capel ac un rhiant ymlaen i gael eu bedyddio gan Jane Eryl Jones. Bedyddiwyd Elis, mab Huw ac Ann Rees, y brodyr a'r chwiorydd, Gethin a Mari Ffion Evans, a Dafydd Siôn a Nia Elin Powell. Cafodd Lisa Powell, mam Dafydd a Nia hithau ei bedyddio hefyd. Yn dilyn y bedydd daeth Wendy Reynolds, Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr i estyn croeso i Lisa Powell i fod yn aelod cyflawn yn y Tabernacl.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Margaret Calvert a'r teulu ar golli mam Margaret a hithau dros ei chant oed. Yr un yw ein dymuniadau i Dewi Hughes, Pentyrch ar golli ei dad yng nghyfraith, Mr Edgar Walters (tad y diweddar Haulwen).

Cinio Gŵyl Dewi
Codwyd £180 tuag at elusennau'r capel yn y Cinio Gŵyl Dewi a gynhaliwyd yn Neuadd y pentref yn dilyn yr Oedfa Fore Sul, Chwefror 28ain. Diolch i bawb am baratoi'r bwyd a gwneud y fenter yn llwyddiant.

"Tafod y Tab"
Diolch i Gwerfyl Morse am gynhyrchu rhifyn deniadol iawn a llawn gwybodaeth o "Tafod y Tab".

Merched y Capel
Ein siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Mawrth o Ferched y Tabernacl oedd y Parchedig Rhiannon Francis. Mae'n Gaplan Ysbyty yn gweithio'n bennaf gyda phlant ac ieuenctid yn Ysbyty'r Brifysgol yng Nghaerdydd. Rhoddodd fraslun o'i diwrnod gwaith yn yr Ysbyty i ni gan sôn fel y bydd yn gweini cysur i'r cleifion. Soniodd yn benodol am un ferch ifanc a gollodd ei bywyd i ganser rai dyddiau cyn iddi ddod atom i'r Ganolfan. Daeth â lwmp i wddw y rhan fwyaf ohonom a deigryn i lygaid amryw.

Ein cyfarfod nesaf fydd ymweliad â Theatr y Sherman ar nos Fawrth, Ebrill 19eg am hanner awr wedi saith i weld y ddrama "Mrs Reynolds a'r Cena Bach".

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Ebrill
Ebrill 3ydd: Oedfa Gymun o dan ofal aelodau Pentre'r Eglwys
Ebrill 10fed: Y Parchedig Aled Edwards
Ebrill 17eg: Oedfa Deuluol gan Sara, Elain ac Awen.
Ebrill 24ain: Sul o gerddoriaeth ddefosiynol gan Geraint, Siriol a Steve Preston.

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

Llongyfarchiadu mawr i Corey Domachowski, neu Corey Dom fel mae bobol y cwm yn ei adnabod. Mae Corey yn chwarae rhif 1 i dîm rygbi Cymru dan 20 - enillwyr pencampwriaeth y 6 gwlad. Fe aeth nifer o gefnogwyr Corey i Ashton Gate ym Mryste i weld Lloegr yn erbyn Cymru.

ATGOFION PLENTYNDOD YN Y CYMOEDD

Mae hanes cythryblus cymoedd de Cymru yn thema ganolog i'r stori hwn o blentyndod a hanes teulu gaiff ei adrodd drwy lygaid a chof awdur a golygydd o fri.

Mae *Where the Stream Ran Red* yn adrodd hanes un man ac un teulu ond eto mae'r hanes yr un mor wir am sawl teulu ar draws meysydd glo de Cymru y cyfnod. Olrheinir hanes o dde Cymru at India'r Gorllewin yng nghyfnod caethwasiaeth, môr mawr Singapore ac hyd yn oed i bellafion Wcrain.

Dyma ddechrau hanes Gilfach Goch fel cwm glofaol.

'Cefais fy nghymell i sgwennu gan deimlad o fethiant o'm rhan i i holi fy rhieni, fy chwiorydd ac eraill, oedd yn dyst i ddigwyddiadau cyn i mi gael fy ngeni ac yn ystod blynyddoedd cynnar fy mhlentyndod, am eu profiadau nhw yn y ddau ryfel byd ac am flynyddoedd y streiciau ac am yr iselder rhyngddynt' eglurodd yr awdur, Sam Adams.

'Ym mlynyddoedd fy ieuenctid fe gofiaf y pyllau yn brysur dydd a nos, gyda phob dyn abl – a nifer o ferched hefyd, yn cael eu cyflogi. Roedd gan bawb lyfrau dogni. Roedd teuluoedd yn gorfod dioddef y golled a'r galar o farwolaeth eu anwyliaid yn y rhyfel, roedd salwch yn bla, ond roedd pobl yn bwrw ymlaen, yn y cymoedd ac mewn mannau eraill.'

Fel nifer yn ne Cymru, mae gwreiddiau teulu'r awdur wedi lledaenu yn eang iawn – o Ddinbych i Wlad yr Haf, i Aberteifi, Caerfyrddin a Bannau Brycheiniog. Cafodd yr awdur a'r golygydd Sam Adams ei eni a'i fagu yn y Gilfach Goch ym Morgannwg, pan oedd yn gwm glofaol prysur. Wedi astudio Saesneg yng Ngoleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, fe gyfunodd yrfa mewn addysg gyda'i waith fel awdur a golygydd.

Mae Where the Stream Ran Red – Memories and Histories of a Welsh Mining Valley gan Sam Adams (£9.99, Y Lolfa) ar gael nawr.

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y mis: Eluned Davies-Scott

Cydymdeimladau
Cydymdeimlwn yn fawr ag Eirlys a Steve Lamb, Robert, Carys a'u teuluoedd ar golli brawd Eirlys yn frawychus o sydyn yn 57 oed ddechrau mis Mawrth. Cafodd Geraint Hughes yrfa lewyrchus gyda chwmni Tesco gan ddod yn rheolwr ar rai o siopau mwyaf y cwmni yng Nghaerdydd a Chasnewydd. Ar ôl ymddeol yn ifanc bu'n cadw tyddyn ym Mro Morgannwg gyda'i wraig Sarah, a'i fab a'i ferch Daniel a Nerys. Yno bu'n meithrin ei ddiddordeb mewn cobiau Cymreig ac ail-sefydlu bridfa ei dad, sef Bridfa Ionos. Geraint oedd Cadeirydd presennol Cymdeithas Cenedlaethol Cobiau Cymreig. Symudodd Geraint a Sarah i Benrhiwllan ger Llandysul y llynedd yn nes at ei hen ardal yng Ngheredigion. Roedd Capel Glynarthen bron yn llawn pan gynhaliwyd y gwasanaeth angladdol ar Fawrth 18fed. Cydymdeimlwn yn fawr hefyd â mam Eirlys, Mrs Edna Hughes ac â'i chwaer Bethan a'r teulu. Rydym yn meddwl amdanoch i gyd.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Margaret Calvert o Dongsguboriau a gollodd ei mam yn ddiweddar. Roedd Mrs Olwen James yn byw yng Nghroesoswallt ac yn parhau i fwynhau bod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg yn yr ardal hyd ddiwedd ei hoes yn gant oed.

Grwp codi arian Macmillan, Pontyclun a'r cylch.
Diolch i Khaled Abdul, perchennog newydd tŷ bwyta 'The New Raj' yn Tonysguboriau, am gyfrannu 40% o elw noson bwffe gynhaliwyd ar 10fed o Fawrth i gronfa Macmillan. Roedd y lle yn llawn a chafwyd adloniant yn ystod y noson gan ddau o ddoniau ifanc yr ardal, James Davies a Megan Price.

Mae MPS Healthcare yn noddi Macmillan a gwaith y grwp am yr ail flwyddyn. Dathlwyd ddydd crempog a dydd Gwyl Dewi yn swyddfa'r cwmni gyda'r staff yn codi dros £138 tra'n mwynhau crempog a phicau ar y maen.

Ar hyn o bryd mae aelodau'r grwp yn brysur baratoi ar gyfer dau ddigwyddiad pwysig. Ar 22ain o Ebrill cynhelir y 'Noson Lawen' flynyddol yng Nghlwb Gweithwyr Llanhari ac ar Fedi 4ydd bydd 'Taith Gerdded Llantrisant'. Mae gwybodaeth am y ddau ddigwyddiad ar dudalen Facebook y grŵp. Bydd modd cofrestru trwy wefan Macmillan i gymryd rhan yn y daith gerdded 8 milltir (o Llantrisant i Efail Isaf ac yn ôl).

Dyrchafiad
Llongyfarchion i Sioned Scott, merch Eluned a Dennis, Meisgyn. Mae Sioned yn gweithio ym mhencadlys Rolls Royce yn Goodwood ac nawr yn 'Rheolwr Strwythur y Safle' gyda chyfrifoldeb penodol am ddatblygiadau y safle yn y dyfodol. Mae hi wedi cael gwahoddiad i ymuno a menter newydd 'Dare To Be Different – Driving Female Talent' sydd wedi ei lansio gan Susie Wolff (cyn yrrwr rasio Prydeinig) a'r MSA. Bwriad y fenter yw annog merched i ymuno â diwydiannau sy'n cael eu dominyddu gan ddynion.

Merched Y Wawr
Aeth 17 o aelodau cangen Tonysguboriau i ddathlu Gŵyl Dewi yn y Boar's Head, Tonysguboriau. Cafwyd pryd amser cinio blasus iawn yn y dafarn. Os nad ydych wedi bod yno mae'n werth ymweliad ac mae'n bosibl cael 'paned neu de prynahwn hefyd yn y siop goffi sydd ganddynt. Ar ddiwedd y pryd cafodd yr aelodau 'Goody Bag' oedd yn cynnwys darn o gacen rhiwbob a chwstard; Eluned oedd wedi paratoi y gacen ar gyfer rhaglen 'Bore Cothi' yn gynharach y bore hwnw pan oedd yn siarad am rhiwbob!

Bydd Dilwen Davies yn dangos i ni sut i drefnu blodau'r gwanwyn yng ngyfarfod Mis Ebrill. Ym mis Mai byddwn yn ymweld â Gerddi Dyffryn ac mae croeso i aelodau o ganghennau eraill ymuno a ni ar y daith (cysylltwch â Dilwen neu Eluned am fwy o wybodaeth).

Croeso'n ôl i'r ardal
Mae Jonathan, mab Jean Davies, Mesigyn, wedi ymeddeol o'i swydd gyda British Airways ym maes awyrennau Heathrow. Erbyn hyn mae e a'i wraig wedi ymgartrefu yn eu cartef newydd yn y fro.

Cyfrinach fach - bydd Jean yn dathlu penblwydd 'arbennig' ym mis Ebrill!

Priodas
Llongyfarchiadau i Catrin Edwards ac Anthony Jones ar eu priodas ddydd Sul y Pasg yn Llys Tretwr, ger Crug Hywel. Mae Catrin yn ferch i Mair a Mike Edwards o Parkdale View, Llantrisant, ac mae'n gweithio i'r elusen Sense. Athro yn Ysgol Glan Morfa yng Nghaerdydd yw Anthony, ac mae'n fab i Meriel Jones a llys-fab i'r Athro David Reynolds, o Cross Inn. Bu Catrin ac Anthony yn ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant, ac yn Ysgol Gyfun Llanhari, ac mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch chi.

Penblwydd hapus a gwellhad buan
Penblwydd Hapus i Emma James o Portreeve Close, Llantrisant, a ddathlodd benblwydd arbennig ddydd Llun y Pasg. Treuliodd Emma gyfnod byr yn yr ysbyty'n ddiweddar ac mae'n dal i wella. Gobeithio i ti fedru mwynhau dy benblwydd serch hynny Emma!

Gohebydd mis Mai yw Allan James - ceriiwan@gmail.com

Ysgol Creigiau

Eisteddfod yr Ysgol
Ddydd Mawrth, Mawrth y 1af, dathlon ni Ddydd Gŵyl Dewi drwy gynnal ein Heisteddfod yn neuadd yr ysgol. Bu'r disgyblion i gyd yn paratoi eitemau amrywiol er mwyn eu perfformio yn ystod y dydd. Cafodd disgyblion o bob dosbarth eu gwobrwyo am ddarnau o waith celf a gwaith llythrennedd. Cawsom ddiwrnod i'r brenin ac ar ôl brwydr galed, y tîm buddugol eleni oedd Iestyn.

Grŵp Menter
Rhai wythnosau yn ôl, aeth pedwar aelod o'n Grŵp Menter i Rownd Derfynol Ranbarthol Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd 'Y Criw Mentrus' a gynhaliwyd yn yr Orendy, Parc Margam. Cawsant gyfle i egluro ac arddangos eu gwaith ardderchog i entrepreneuriaid blaenllaw. Roedd hi'n ddiwrnod llwyddiannus iawn iddynt. Enillon nhw'r wobr aur am 'Syniadau Mawr am gynnyrch neu wasanaeth arloesol' a'r wobr aur am 'Ymgysylltu â Busnes'. Rydym yn hynod falch o'u llwyddiannau.

'Diwrnod y Llyfr'
Ddydd Iau, Mawrth y 3ydd, dathlon ni 'Diwrnod y Llyfr' yn yr ysgol. Gwisgodd y disgyblion (a rhai athrawon!) i fyny fel cymeriad o'u hoff lyfr a derbyniodd pob plentyn docyn llyfr gwerth £1. Daeth disgyblion CA2 â llyfr yr oeddent wedi ei ddarllen, ac nad oeddent eisiau mwyach, i'r ysgol er mwyn ei roi i aelod arall yn y dosbarth. Llenwon nhw gerdyn i egluro pam eu bod wedi dewis rhoi'r llyfr yma i rywun arall. Ffordd wych o ailgylchu llyfrau!

Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd.
Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu'n ddiweddar yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd. Llongyfarchiadau arbennig i'r canlynol a fydd yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir y Fflint yn ystod hanner tymor y Sulgwyn. Ffion Lewis: Llefaru Bl 3 - 4 i ddysgwyr, Ruby Terry: Llefaru Bl 5 - 6 i ddysgwyr, Parti Llefaru i ddysgwyr, Iestyn Ellis: Unawd Pres, Parti Recorders a'r Côr Cerdd Dant.

Cerddorfa'r Ysgol
Gwahoddwyd Cerddorfa'r Ysgol i berfformio ar y llwyfan yng nghyntedd Canolfan y Mileniwm ddydd Sul, 13eg o Fawrth. Cafwyd perfformiad o gerddoriaeth amrywiol ganddynt ac roedd pawb wedi mwynhau gwrando arnynt yn perfformio mor broffesiynol. Diolch i Mr Matt Ashment eu harweinydd, am roi o'i amser bob pnawn Gwener i hyfforddi'r Gerddorfa.

Diabetes Cymru
Daeth cynrychiolydd o Diabetes UK, ein helusen ddewisol eleni, i'n gwasanaeth ysgol yn ddiweddar i dderbyn siec am £1400. Codwyd yr arian o werthiant tocynnau ein Cyngerdd Nadolig a'n Gwasanaeth Cynhaeaf.

Sport Relief
Cawsom ddiwrnod i'r brenin ddydd Gwener, Mawrth 18fed yn dathlu 'Sport Relief'. Roedd aelodau o'n Cyngor Ysgol wedi trefnu 'Marathon Cyfnewid' ar gyfer y disgyblion. Cafodd pob un disgybl gyfle i redeg neu gerdded o gwmpas y cae yn ystod y dydd ac ar ôl diwrnod prysur a blinedig o redeg neu gerdded, llwyddon ni i gyflawni 27 marathon! Tipyn o gamp yn wir! Fe lwyddon ni i casglu £475 tuag at yr elusen a chael llawer o hwyl yr un pryd.

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**

Mis Ebrill 2016:

3 Oedfa gymun dan ofal y Parchedig Allan Pickard
10 Oedfa dan ofal Geraint Rees
17 Oedfa dan ofal y Parchedig Hywel Wyn Richards
24 Oedfa Ardal

Mis Mai 2016:

1 Oedfa Gymun dan ofal y Parchedig Eirian Rees
8 Oedfa dan ofal Emlyn Davies
15 Gwasanaeth Cymorth Cristnogol
22 Oedfa i'w threfnu
29 Oedfa i'w threfnu

Mae'n tynnu tua'r Pasg wrth i mi geisio ysgrifennu hyn o bwt i Tafod Elái – ydi, mae'n ben set arnaf fel arfer!

Cael cip yn ôl dros rifynnau'r ychydig flynyddoedd diwethaf yma a sylweddoli fy mod eisioes wedi cyfeirio at nifer o bethau "pasgaidd" gartref ac oddicartref, ac felly dyma droi at "gwgl" am ysbrydoliaeth.

Rhoi'r gair "pasg" yn y blwch a chael ar ddeall fod 'na 346 000 o gyfeiriadau yn ymddangos ar y we.

Cofiwch chi mae rhain yn amrywio'n fawr yn eu cynnwys, ond mae'n ddiddorol sylwi ar yr hyn y gall y "pasg", fel talfyriad, ei gynrychioli (y rhain yn Saesneg i gyd) e.e.:-

Pneumatic Anti-Shock Garment (Meddygol)
Performing Arts School Galway (Cymunedol)
Pharmaceutical Analytical Sciences Group (Busnes)
Phuket Animal Support Group (Cymunedol)
Parent Advisory and Support Group (Cymunedol)
Presidential Anti Smuggling Group
Pneumatic Anti Space Gadget
Pornography Addiction Support Group (Mormoniaid)

Dichon bod daioni ym mhob un o'r "pasgau" yma, a bod lle i bob un o fewn ei gwmpawd penodol, ac wrth gwrs, mae 'na lawer mwy ohonynt ymysg y 346 000 o gyfeiriadau!

Da gweld yn ogystal fod ein "Pasg" ninnau yn cael ei gydnabod, a hynny trwy fynych gyfeiriadau at ddeunydd gwasanaethau'r Pasg, llyfrau ac erthyglau lu, ac hefyd rai o'r traddodiadau sy'n gysylltiedig a'r Pasg.

Pwy ohonoch sy'n gyfarwydd a'r canlynol tybed (o safle gwe Llywodraeth Cymru)?

"Mae 'na lawer o draddodiadau gwahanol dros wyliau'r Pasg yng Nghymru - o rai crefyddol i rai ysgafnach.

Byddai rhai yn cerdded i'r eglwys yn droednoeth ar ddydd Gwener y Groglith er mwyn osgoi styrbio'r tir. Traddodiad arall oedd 'creu gwely Crist' lle byddai plant yn crwydro i'r afon i gasglu brwyn a'u plygu i greu siâp corff dyn a'i orwedd ar groesau pren cyn ei roi i orffwys mewn cae cyfagos.

Ar ddydd Llun y Pasg roedd son bod pobl yn cerdded i ben mynydd cyfagos i wylio'r wawr. Mewn rhai ardaloedd o Gymru byddai pobl yn cario bwced o ddŵr gyda nhw i adlewyrchu'r wawr ac eraill yn neidio tin-dros-ben dair gwaith.

Un traddodiad sydd wedi cael ei adfywio ym Môn yw 'clapio wyau'. Yn y 19eg ganrif roedd plant yn teithio i ffermydd cyfagos yn canu a holi am wyau gan glapio offeryn taro pren wrth ganu ar eu ffordd."

Ac wele weddi fer, sy'n crynhoi mewn ychydig eiriau, pam ein bod ni heddiw, ar waethaf y gyflafan ddiweddar ym Mrwsel, a'r holl erchyllterau sy'n digwydd ymhob cornel o'n byd bregus ni, yn mynnu o hyd ddathlu'r Pasg:-

"Diolch i ti am stori'r Pasg ac am y gobaith sy'n dod gyda hi. Diolch i ti am fywyd Iesu, ac am esiampl Iesu i ni i gyd.

Diolch i ti bod ei fywyd, ei farwolaeth, a'i atgyfodiad wedi newid y byd. ***Amen.***

Yn dilyn yr erthygl ym mis Mawrth, er gwybodaeth, pleidleisiodd Bethlehem (o 59 pleidlais i 3) i ganiatau defnydd yr adeilad ar gyfer priodasau un rhyw.

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.gwe-bethlehem.org Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

Ysgol Dolau (Lluniau tudalen 13)

Pêl-rwyd

Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-rwyd am ennill medalau efydd yng nghystadleuaeth yr Urdd ym Mhen-y-bont. Chwarae ardderchog gan y tîm, da iawn chi a'r hyfforddwyr!

Castell Caerffili

Aeth plant blwyddyn 1 a 2 ar daith i gastell Caerffili fel rhan o'u thema. Cawson ddiwrnod gwych yn cerdded o gwmpas y castell, yn enwi'r rhannau, gweithdy i ddysgu am fywyd o fewn y castell ac wrth gwrs gweld y ddraig goch oedd yno hefyd! Diwrnod gwych!

Dydd Gŵyl Dewi

Roedd Mawrth 1af yn ddiwrnod prysur iawn! Cawsom eisteddfod ysgol gyda dawnsio gwerin, llefaru, côr, partion canu ac eitemau cerddorol. Cafodd y plant dystysgrifau ar gyfer cystadleuthau celf, llawysgrifen ac ysgrifennu stori. I orffen y dydd, cynhalion ni y seremoni cadeirio a choroni - llongyfarchidau i Yvie ac Elin-Mair yr enillwyr!

Hwyl fawr Dennis

Diolch yn fawr i Dennis, ein swyddog croesi'r ffordd am y chwe blynedd diwethaf. Diolch am ei waith caredig wrth helpu pob plentyn a theulu groesi'r ffordd brysur yma tu allan i'r ysgol. Daeth nifer helaeth o rieni i'n gwasanaeth arbennig i ffarwelio â Dennis er mwyn dangos eu gwerthfawrogiad hefyd. Pob lwc a diolch Dennis!

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Taith yr Adran Gelf i Florence
(Llun tudalen 14)

Yn ystod Chwefror fe aethom ar daith i Florence, Yr Eidal er mwyn ysbrydoli ein gwaith Celf a gwaith Ffotograffiaeth ar gyfer ein cwrs Lefel A. Fe fuom yn ffodus iawn o allu ymweld â sawl lle enwog. Roedd yr Eglwys Gadeiriol, sef y Il Duomo di Firenze, Cattedrale di Santa Maria del Fiore yn adeilad anhygoel. Roedd ei faint a'i liw yn arbennig. Cymerodd e sbel i ddringo'r 463 o risiau tu fewn i'r Eglwys lle'r oedd rhaid troelli i fyny yn y twr cul. Ond mi oedd yr olygfa o'r top werth e! Mi oedd y tywydd yn berffaith yno gyda'r awyr yn las a'r haul yn sgleinio, felly cawsom sawl cyfle i gael lluniau perffaith ar gyfer ein gwaith. Hefyd aethom ar daith gerdded o gwmpas y ddinas i ymweld â rhai o'r amgueddfeydd mwyaf poblogaidd ac enwog, fel gwelon ni gerflunwaith 'David' Michaelangelo yn Oriel yr Accedamia a gwaith Donatelo yn Oriel yr Uffizi. Cymeron ni sawl hunlun ar bont enwog, Ponte Vecchio, lle mae'r siopau i gyd yn gwerthu gemwaith a phethau aur drud iawn. Mi oedd e'n brofiad cael gweld y llefydd enwog.

Buom yn ffodus o gael ymweld ag amgueddfa GUCCI, lle gwelom sawl cynnyrch hanesyddol gan y cynlluniwr. Mi oedd y ffrogiau mor bert, rhai ffrogiau oedd sawl person enwog wedi gwisgo ar y carped coch am yr Oscars. Ffrog Cameron Diaz oedd yr un gorau! Er bod Mrs Amanda Jones a Miss Sara Thomas wedi cwympo mewn cariad gyda sawl bag yn Amgueddfa GUCCI, yn sicr doedd gyda nhw ddim yr arian i brynu un! Yn ystod ein hamser cawsom ni sawl pryd o fwyd Eidaleg iawn, digon o basta a phitsa! Mi oedd cael y cyfle i siopa yn ei siopau hardd yn ystod y nos hefyd yn brofiad anhygoel. Rydym yn cytuno bydd angen mynd nôl i weld y ddinas hyfryd Eidaleg. Yn sicr fe fydd ein gwaith ffotograffiaeth yn arbennig nawr! Gan Nisia Morris Bl.13

Ysgol Llanhari (Lluniau Tudalen 15)

Dragoncraft
Mae disgyblion o ddosbarthiadau Gwion Gwiwer a Lleucu Llwynog wedi bod yn hynod ffodus o fod yn rhan o brosiect Dragoncraft gydag ysgolion cynradd cyfagos. Maent wedi bod yn dilyn antur Chi y Ddraig o'i wlad enedigol ar draws y byd i ddarganfod cartref newydd. Mae'r plant wedi bod yn brysur yn dysgu am wledydd gwahanol sydd yn cyd-fynd a'n thema 'O bedwar ban byd' ac yn chwilio am wahanol ffyrdd o adeiladu castell fel cartref i Chi. Maent wedi bod yn llwytho eu gwaith ar Hwb+ ac yn cyfathrebu ac yn rhannu syniadau gyda phlant o'r ysgolion eraill sydd yn cymryd rhan. Bu dau o'r plant yn cynrychioli'r ysgol ar Fawrth 15fed yn Ysgol Gynradd Brynnau mewn gweithdy Minecraft lle bu gofyn i'r ysgolion gwahanol adeiladu rhan wahanol o'r castell. Roedd rhaid i'n plant ni adeiladu'r stabl. Roeddent yn wych ac yn dysgu ambell i beth i'w hathrawon! Ymdrech ac ymroddiad arbennig gan bob disgybl- da iawn chi!

Pobathon
Ers hanner tymor, mae dydd Iau yn ddiwrnod Pobathon yn Ysgol Llanhari! Mae ymateb y disgyblion wedi bod yn wych, gyda'r disgyblion yn pobi cacennau i'w beirniadu yn y lle cyntaf ac yna eu gwerthu er mwyn codi arian arian tuag at Eisteddfod yr Urdd 2017. Mae un rownd bwysig iawn i'w chynnal wedi'r Pasg sef rownd y staff !! ac yna fe gynhelir rowndiau terfynol. Diolch yn fawr i Miss Rowlands a Mrs Bowen am eu holl waith gyda'r fenter boblogaidd hon.

Clocs Ffit
Roedd y disgyblion wrth eu bodd pan ymwelodd Tudur Phillips o Clocsffit y ystod wythnos olaf y tymor. Cafwyd sesiynau llawn hwyl wrth glocsio a chadw'n heini ac edrychwn ymlaen at groesawu Tudur nôl i'r ysgol ym mis Mai i gynnal sesiynau ychwanegol gyda blwyddyn 8 a disgyblion yr adran gynradd. Tybed a fydd bechgyn blwyddyn 10 yn gwireddu eu potensial amlwg?

Trip Castell Caerffili
Yn dilyn y prosiect a thaith Chi, aeth disgyblion o flynyddoedd 1, 2 a 3 ar drip i Gastell Caerffili ar ddechrau'r tymor i gymryd sylw o'r agweddau hanfodol sydd mewn castell a beth fyddai rhaid iddynt hwy gofio wrth 'adeiladu' eu cestyll nhw. Roeddent wedi mwynhau mas draw yn ymchwilio i bob ystafell ac edrych am gliwiau i lenwi eu llyfrynnau gwybodaeth. Er bod y tywydd braidd yn oer, roedd pawb wrth eu boddau yn dringo'r grisiau troellog a bwyta'u cinio yn y neuadd fawr.

Eisteddfod yr Urdd
Llongyfarchiadau i Sienna Cale, Catrin Pressley, Reuben Davies a Sophie Lewis a fu'n cystadlu ar ran Adran Gynradd Llanhari yn yr Eisteddfod Gylch ac er nad oes taith i Fflint iddyn nhw eleni, bydd disgyblion o'r adran Uwchradd yn cynrychioli yr ysgol a'r Sir yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fflint. Llongyfarchiadau arbennig i Siwan a Celyn (deuawd bl7-9) Elis Rees (unawd bechgyn bl7-9) a Llew Jones (unawd piano bl7-9). Dymuniadau gorau i'r pedwar ohonoch yn y Gogledd ym mis Mai!

Diolch a phob hwyl!
Ar ddiwedd Tymor y Pasg ffarweliwyd â Mr Carwyn Lewis, oedd yn arolygwr gwersi yn Ysgol Llanhari am ei fod yn ymgymryd â her newydd gyffrous yn hyfforddi rygbi yn ysgolion Dolgellau. Cwta pymtheg mis a fu Carwyn yn Llanhari ond fe gyfrannodd yn helaeth i'r ysgol yn allgyrsiol – o ran chwaraeon ac yn ddiwylliannol. Fe fydd bwlch mawr ar ei ôl a dymunwn pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

Llwyddiant Siarad Cyhoeddus
Unwaith eto mae'n bleser cyhoeddi llwyddiant y tîm siarad cyhoeddus Saesneg a lwyddodd i gyrraedd y rownd derfynol yng nghystadleuaeth y Rotary eto eleni. Roedd safon y gystadleuaeth a gynhaliwyd ar ddechrau mis Mawrth yn Ysgol y Bontfaen yn uchel dros ben ac fe berfformiodd Gwynfor, Harriet a Poppy yn wych. Llongyfarchiadau i chi'ch tri a diolch i Mrs Lewis am hyfforddi.

(Parhad tudalen 15)

CROESAIR

Enillyd rhifyn mis Mawrth yw Cedric Davies, Caerdydd.



Ar Draws
1. Rhisgl (4)
5. Mynd heb gosb (5)
8. Wedi ei roi ar bapur (12)
9. Boreol (8)
11. Chwith (4)
13. Heb un arall (6)
15. Mynwent (6)
17. Ar ran (4)
18. Tafodiaith wael (8)
21. Gwasanaeth un sy'n goflau am eglwys (12)
23. Unig fab (5)
24. Rhibidires (4)

I Lawr
2. Enllib (5)
3. Dyn bach (3)
4. Dyfal (6)
5. Cofen (4)
6. Gradd is na dug (7)
7. Crefft un sy'n gwerthu cig (9)
9. Pethau i orffwys pen arnynt (9)
10. Ffrâm i gludo arch arni (4)
12. Llestr crwn (4)
14. Llinell tymheredd (7)
16. Cyweirio (6)
19. Dal i fyny (5)
20. Cnap (4)
22. Clwyd (3)

Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil,
Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 18 Ebrill 2016

Atebion Mawrth

E		O		O		C		C		G		Y
D	I	FF	Y	G	I	O		Y	R	W	A	N
R		E				R		F		A		N
Y	M	R	Y	S	O	N	F	A		N	A	I
CH		Y		A				R		A		
I	O	N		N		B	A	W	D	F	Y	S
A				C		E		Y				E
D	I	Y	S	T	Y	R		DD		B	R	I
		N		E				Y		Y		TH
P	W	Y		I	S	E	L	D	E	R	A	U
L		S		DD		M				D		G
A	DD	O	L	I		Y	M	B	O	E	N	I
S		L		O		N		O		R		O

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mai
i gyrraedd erbyn
27 Ebrill 2016

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

MERCHED Y WAWR
Cangen Tonysguboriau

Trefnu blodau gyd Dilwen Davies

7.30yh Ebrill 20fed
Y Pafiliwn, Tonysguboriau

Rhagor o fanylion:
01443 202093 / 01443 203729

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Orig ddifyr yng nghwmni Lowri Haf Cooke

yng Nghanolfan Tabernacl, Efail Isaf
Nos Fercher y 13eg o Ebrill am 8yh
Dewch yn llu i gefnogi!

Manylion: 029 20890770

Cyngerdd Elusen
Eisteddfod Genedlaethol y Fenni 2016

Côr Hen Nodiant
Côr Ysgol Gwaelod y Garth

7yh, Nos Fercher, Ebril 20fed
Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth

Tocynnau £5
Oddi wrth aelodau Merched y Wawr Radur a'r Garth

Dosbarth Llenyddol Cyril Jones
Trip i'r Nant a'r ardal
penwythnos 24-26 Mehefin.
Os oes diddordeb cysylltwch â
John Llew:
ebost: johnllewt@hotmail.com
Ffon: 01443 218077

Bore Coffi i'r dysgwyr
yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore.
Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.

CLWB Y DWRLYN

Troi'r Byrdde - Beti George
yn cael ei holi gan Huw Llywelyn Davies
8.00yh Nos Iau 21 Ebrill
Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch

CYLCH CADWGAN

Y Prifardd Geraint
yn siarad ar y testun 'Geraint a Gerallt'

8.00yh Nos Iau 5 Mai
Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch

Manylion: 029 20890040

Cyngerdd Elusen
2 Wish Upon a Star

Côr Godre'r Garth
Côr Ysgol Gymraeg Llantrisant
Côr Tadau Llantrisant

7yh Nos Wener 15 Ebrill
Yn Eglwys Llantrisant

Tocyn £5 wrth y drws neu 07454512967

www.2wishuponastar.org

Catrin Finch
yn cyflwyno
Classical Café
8yh yn Acapela, Pentyrch

14 Ebrill April 2016
7 Gorffennaf 2016
30 Medi 2016

Colofn Blasus ac Iachus

Ydy pawb wedi syrffedu ar fwyta wyau Pasg erbyn hyn?
Yn ystod gwyliau diweddar yn Viet Nam cefais i ddau brofiad coginiol 'diddorol' a gwahanol iawn i wneud gydag wyau. Es i ar daith gerdded o amgylch dinas Hanoi ac yn 'Egg Coffee Lane' cefais y profiad cyntaf sef 'coffi wy'. Yn ôl ein tywysydd, perchennog caffi Gian yn Hanoi sydd wedi dyfeisio'r rysáit poblogaidd hwn lle mae'r coffi'n cael ei gymysgu gyda melyn wy amrwd a llaeth trwchus (condensed). Roedd yn eitha derbyniol ar gyfer 'paned ganol bore, ond i mi 'roedd yr ansawdd braidd yn rhy drwchus ac er bod blas y coffi yn gryf teimlais fel fy mod yn yfed pwdin wy!

Ymhellach ymlaen ar y daith gerdded cyflwynodd y tywysydd yr ail 'brofiad' i ni. Roedd amrywiaeth o fwydydd yn cael eu coginio gan wragedd yn eistedd ar stolion isel ar y pafin ond dyma'r un mwyaf diddorol. Ystyrir yn frecwast maethlon yn Hanoi, sef yr 'hanner wy hwyaden'. Allwch chi ddyfalu beth ydyw oddi wrth y llun?(mae enw'r bwyd yn gliw….. bon appetite!)

Ar ôl hyn 'dwi wedi penderfynu cyflwyno rysáit ar gyfer llysfwytawyr! Mae'n rysáit gyflwynais ar raglen 'Bore Cothi'. Rhoddwyd cynnig arno hefyd gan aelodau o un o'm grwpiau coginio ac roeddynt wedi ei fwynhau. Mae'n flasus ac yn gyfle i roi tro ar weini bwyd iachus sydd ddim yn cynnwys cig na llawer o gynnyrch y bwtri.

PASTAI TATWS A SBIGOGLYS
Cynhwysion:

500g tatws	25g menyn + 40g ychwanegol
1 nionyn	Llwy bwdin o hadau cumin
2 lwy bwdin hadau mwstard du	Tua 3cm o sinsir ffres
1 chili coch	2 llwy bwdin past Korma
200g sbigoglys ffres	2 domato
Tusw bach o coriander	150g (tua 4 ddalen) crwst ffilo

Bydd angen tun cacen 20cm gyda gwaelod rhydd

Dull:
1.Ffwrn 'mlaen 170◦C/ Nwy 5
2.Paratowch y chili a'r sinsir. Piliwch y tatws ar nionyn. Torrwch y tatws yn hanner a'u coginio mewn dŵr berwedig.

3.Torrwch y nionyn yn fân. Toddwch 25g o'r menyn a ffriwch y nionyn am ychydig funudau cyn ychwanegu'r chilli, sinsir, cumin a 1 llwy bwdin o hadau mwstard. Coginiwch am tua 7 munud, yna ychwanegwch y past Korma.
4.Coginiwch 200g sbigoglys am tua 4 munud yn y popty ping, yna rhaid cael gwared â chymaint o'r dŵr ac sy'n bosib cyn ei dorri'n fân a'i ychwanegu i'r tatws ar ôl iddynt goginio (cymysgwch yn dda ond peidiwch gwneud y tatws yn stwnsh)
5.Torrwch y tomatos â'r coriander yn fân ac ychwanegwch gyda'r sbigoglys i'r tatws. Ychwanegwch halen i'r blas.
6.Toddwch y menyn a'i ddefnyddio i iro'r tun. Yna, brwsiwch 3-4 taflen o grwst ffilo gyda'r menyn gan ddefnyddio 2 daflen i orchuddio gwaelod ac ochrau'r tun gan wneud yn siŵr bod peth o'r crwst yn ymestyn dros fin y tun.
7.Ychwanegwch y llenwad a'i orchuddio gyda gweddill y crwst ffilo. Brwsiwch gydag ymenyn cyn taenu ychydig o hadau mwstard du ar yr wyneb. Coginiwch am tua 35 munud a gadewch iddo oeri ychydig cyn ei dynnu allan o'r tun.

Eluned Davies-Scott

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

(Lluniau Tudalen 4)

Llwyddiant Gymnasteg
Llongyfarchiadau mawr i Megan Williams ar ei champ o ddod yn ail yng nghystadleuaeth gymnasteg yr Urdd ac roedd Scarlett, Zac a Megan yn 4ydd agos iawn yn y gystadleuaeth i driawdau. Mae Rhys Griffiths hefyd yn cael tymor llwyddiannus iawn gan ennill llu o wobrau yng Nghystadleuaeth Gymnasteg Cymru a dod yn 4ydd yng nghystadleuaeth Prydain yn Glasgow yn ddiweddar.

Recordio Cân Eisteddfod yr Urdd
Aeth 9 o ddisgyblion cyffrous Bl 5 a 6 i Ysgol Cynwyd Sant ar fore Sadwrn i recordio cân ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Penybont ar Ogwr Taf Elai. Roeddynt wir wedi mwynhau y profiad ac maent nawr yn edrych ymlaen i glywed y fersiwn gorffenedig! Diolch yn fawr i Ysgol Cynwyd Sant am y croeso.

Dydd Gwŷl Dewi
Roedd yr eisteddfod yn llwyddiannus iawn eto eleni a diolch i'r holl blant a staff am eu gwaith caled wrth baratoi ar gyfer yr holl gystadleuthau. Ella Thomas o Flwyddyn 6enilliodd y gadair eleni a Tylcha oedd y llys buddugol. Cynhaliwyd llu o weithgareddau amwrywiol yn ystod yr wythnos i ddathlu ein Cymreictod.

Eisteddfod Cylch yr Urdd
Aeth nifer o ddisgyblion yr ysgol i gystadlu ar y canu a llefaru yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanhari yn ddiweddar ac fe gafwyd nifer fawr o wobrau. Diolch yn fawr i'r staff am eu dysgu.

Diwrnod y Llyfr
Roedd nifer o gymeriadau diddorol i'w gweld o amgylch yr ysgol ar Ddiwrnod y Llyfr gyda'r adran Iau a'u hathrawon wedi gwisgo fel cymeriadau o lyfrau Roald Dahl ac fe wisgodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen fel cymeriad o'u hoff lyfr. Cynhaliwyd nifer o wahanol weithgareddau i ddathlu'r diwrnod - gan gynnwys disgyblion Blwyddyn 6 yn newid i fod yn athrawon am y diwrnod a mynd ati i gynnal gweithgareddau darllen yn holl ddosbarthiadau yr ysgol. Trefnodd Blwyddyn 4 'Flash Mob' ar yr iard i ddathlu darllen. Cafwyd Diwrnod y Llyfr bywiog a gwahanol iawn!

Castell Caerffili
Fel rhan o'u gwaith prosiect ar y cyd ac ysgolion eraill yn RhCT aeth disgyblion Blwyddyn 1 a 2 ar drip i gastell Caerffili. Roeddynt yn lwcus iawn i gyfarfod â draig arbennig yn ystod yr ymweliad! Roedd y plant wedi mwynhau dysgu am hanes y castell.

Llysgenhadon Diogelwch y Ffordd
Bu'r Llysgenhadon wrthi yn brysur yn ystod un prynhawn glawog yn rhoi tocynnau parcio i rieni. Roedd rhai yn derbyn tocyn 'Parciwr Da' ac eraill yn anffodus yn derbyn tocyn 'Parciwr Gwael'! Maent yn gobeithio gwella'r broblem barcio ar Stryd yr Ysgol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 ddiwrnod hynod o ddiddorol ar eu hymweliad â'r Cynulliad ym mae Caerdydd. Cawsant gyfle i gael eu tywys o amgylch yr adeilad yn ogystal â chael cyfle i gyfarfod a holi cwestiynau Mick Antoniw eu haelod Cynulliad lleol. Roedd y plant wedi ymchwilio ymlaenllaw i dreth ar siwgr ac fe gafwyd dadl gref iawn ganddynt o blaid ac yn erbyn y dreth. Profiad gwerthfawr iawn.

Technocamps
Bu disgyblion Blwyddyn 4 a 5 yn ffodus iawn i dderbyn gweithdai ar gyfrifiaduron a chodio o dan fenter Technocamps Prifysgol Abertawe. Roedd yn gyfle arbennig i'r plant ddysgu mwy am sut mae cyfrifiaduron yn gweithio a'r defnydd o'r côd deuaidd.

Sports Aid
Cefnogwyd elusen 'Sports Aid' drwy gynnal nifer o wahanol weithgareddau chwaraeon yn yr ysgol. Casglwyd £150 tuag at yr apêl. Diolch yn fawr i bawb.

Diwrnod Ymwybyddiaeth Syndrom Down
I godi ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Cenedlaethol Ymwybyddiaeth o Syndrom Down ac i gefnogi un o deuluoedd yr ysgol fe ddaeth y plant i'r ysgol yn gwisgo sanau lliwgar oedd ddim yn cyfateb.

Profiad y Pasg
Diolch yn fawr unwaith eto eleni i Ficer Ruth ac aelodau Eglwys Dewi Sant am eu gwahoddiad i fod yn rhan o Brofiad y Pasg eto eleni. Roedd yr ymweliad â'r eglwys yn un arbennig iawn.

Ysgol Pont-Sion-Norton

Eisteddfod Sir
Llongyfarchiadau i bawb yn yr Eisteddfod Sir. Ymgom- 1af
Unawd Blwyddyn 3 a 4- 3ydd Aled Evans
Unawd Blwyddyn 5 a 6- 3ydd Ella Tresidder Deuawd- 3ydd Eve a Catrin Dawnsio Disgo- 3ydd

Cogurdd
Pob lwc i Ryan Huchinson a Hannah Evans yn y rownd nesaf.

Llenor y Flwyddyn
Llongyfarchiadau i Karly Harris ar ennill Llenor y flwyddyn eleni.

Diwrnod y llyfr
Diolch i'r plant a'r rhieni am yr ymdrech gwych wrth ddathlu Dydd y Llyfr.

Beicio
Llongyfarchiadau i flwyddyn 6 am gyflawni cwrs beicio lefel 1 a 2.

Parti Pasg
Cafwyd bore llawn hwyl yn y Parti Pasg wrth i blant y cylchoedd meithrin ymuno gyda'r dosbarth Meithrin a Derbyn yn yr ysgol. Diolch i bawb am eu gwaith caled wrth drefnu.

Ffrainc
Byddwn yn croesawu ymwelydd o Ffrainc ym mis Ebrill, fel rhan o waith y Cyngor Prydeinig. Mae'r plant yn edrych ymlaen at ddangos yr ysgol a'u gwaith.

Ysgol Evan James

Dydd Gŵyl Dewi.
Cawsom ddathliadau arbennig ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi gyda pherfformiadau canu ac adrodd yng ngwasanaeth yr ysgol. Gwnaeth disgyblion blynyddoedd 3 a 4 ymweld â Phencadlys yr heddlu ac aeth Blwyddyn 6 i ganu yn Archfarchnad Lidl a Siop Boots gan chwifio baner Cymru gyda balchder.

Sialens y sgarffiau
Gosodwyd tasg cartref i ddisgyblion Dosbarth Jac y Jwc a Sali Mali i greu'r sgarff hiraf. Gwelwyd pawb yn dod â sgarffiau hir i'r ysgol a chafwyd cystadleuaeth ar iard yr ysgol i weld pwy oedd â'r sgarff hiraf. Bron nad oedd digon o hyd ar iard yr ysgol i arddangos ambell i sgarff.

Sgwod Sgwennu
Bu'n fraint i groesawu'r awdur Gwyn Morgan i'r ysgol i hybu sgiliau ysgrifennu disgyblion blwyddyn 5 ein hysgol ni yn ogystal â disgyblion ysgolion Pwll Coch a Berllan Deg a ddaeth i'r ysgol i ymuno yn y gweithdy.

Diwrnod y Llyfr
Gwelwyd amrywiaeth o gymeriadau diddorol ar ddiwrnod y llyfr wrth i ddisgyblion wisgo i fyny fel eu hoff gymeriad o lyfr. Gwnaethpwyd amrywiaeth o weithgareddau diddorol ar y dydd yn cynnwys cyfnewid llyfrau a rhannu stori gyda ffrind.

Twrnament Pêl-rwyd y Sir
Aeth tîm pêl-rwyd yr ysgol i dwrnament Pêl-rwyd Taf yng Nghanolfan Chwaraeon Llantrisant. Chwaraeodd pawb yn arbennig o dda a bu'r tîm yn anlwcus i beidio â chyrraedd y rownd gyn-derfynol ar ôl cystadlu'n frwd iawn.

Diwrnod Sanau Doniol
Cafwyd diwrnod i godi ymwybyddiaeth ar salwch meddwl wrth i'r disgyblion ddod i'r ysgol yn gwisgo sanau o bob lliw a llun.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf
01443 407570
www.menteriaith.cymru

Newyddion da
Mae Fforwm Iaith Sirol yr ardal o dan arweiniad Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yn cwrdd yn aml i drafod sefyllfa'r Gymraeg a materion Gymraeg ar draws y sir a'r aelodau sydd i gyd yn ymwneud a'r Gymraeg yn gweithio gyda'i gilydd i wella darpariaeth ac i sicrhau tegwch i'r Gymraeg.

Un o lwyddiannau mwya' diweddar y fforwm yw'r llyfryn budd addysg Gymraeg 'Bod yn ddwyieithog'. Llyfryn yw hwn yn rhoi gwybodaeth i unigolion am fod yn ddwyieithog, yn amlinellu'r llwybr i addysg Gymraeg ac yn ateb pryderon cyffredin am ddewis addysg Gymraeg.

Mae'r llyfryn nawr yn barod i'w ddosbarthu ac rydym yn gobeithio y bydd o werth mawr i unigolion y sir yma.

Trip ieuenctid – Sioe Jonathan
Diolch yn fawr i rai o ddisgyblion Ysgol Gyfun Gartholwg sydd i gyd yn aelodau o fforwm ieuenctid y Fenter a ddaeth i wylio recordiad o sioe Jonathan yn ddiweddar yn ystod pencampwriaeth y chwe gwlad. Hyfryd oedd gweld pawb yn mwynhau ac yn cymdeithasu'n naturiol iawn yn y Gymraeg. Daliwch ati!

Rhaglen gweithgareddau grŵp gwirfoddoli Clwb y Bont
Bydd yr awdur Gwyn Griffiths yn rhoi sgwrs ar hanes yr Anthem Genedlaethol yng Nghlwb y Bont, Pontypridd, i gofnodi 160 mlynedd ers ei chyfansoddi. Croeso i bawb, mynediad am ddim, am 6yh nos Sul Ebrill 17eg. Yn ogystal â hyn, mae'r grŵp gwirfoddolwyr yn gobeithio cynnal nifer o weithgareddau difyr eraill dros yr haf, ac fe ddaw gwybodaeth bellach yn y man.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2017
Dewch i gael hwyl a chodi arian
Noson Pitsa a Rasys Ceffylau nos Wener, 15 Ebrill yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail am 7pm, gyda'r pitsa'n dod o Hoffi Coffi yn Nhrefforest. Rydym yn gofyn i fusnesau ac unigolion noddi ras am £20. Croeso i chi noddi ras!

Noson bingo dwyieithog – Neuadd bingo oedd y Savoy ar un adeg ac felly gobeithir bydd pobl Tonyrefail yn dod ma's i hel atgofion a chodi arian i Eisteddfod yr Urdd ar yr un pryd – nos Wener, 20 Mai am 7pm.

Noson gomedi – Mae cwmni theatr Avant yn cynnal gŵyl o'r enw Festyrefail ym mis Gorffennaf ac fel rhan o'r ŵyl bydd noson gomedi yng nghwmni Bethan Roberts o'r Gilfach Goch a'i chyfeillion yng Nghlwb y Gweithwyr, Tonyrefail am 7pm. Bydd yr elw i gyd yn mynd i Eisteddfod yr Urdd. Dilynwch ni ar facebook - https://www.facebook.com/pwyllgortonagilfach/.

Cartref Newydd
Mae Walter a Shirley Jones wedi symud o Donyrefail ac ymgartrefu ym Mhorthcawl. Pob dymuniad da iddyn nhw yn eu cartref newydd!

Swydd Newydd
Bydd Fflur Elin yn dychwelyd adref i Donyrefail i fyw ym mis Mehefin wedi iddi gael ei hethol yn Llywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru ar gyfer 2016/17 – y siaradwr Cymraeg cyntaf i gael y swydd ers o leiaf deng mlynedd.

Cyhoeddi Artistiaid Tafwyl 2016

Gyda 100 diwrnod i fynd tan yr ŵyl, mae rhestr *bandiau* Gŵyl Tafwyl, wedi ei gyhoeddi, wrth i'r digwyddiad ddychwelyd i Gastell Caerdydd ar yr 2il a'r 3ydd o Orffennaf.

Bydd y 34 o fandiau yn chwarae dros ddeuddydd diolch i nawdd hael gan BBC Radio Cymru ar gyfer y Prif Lwyfan, a Chlwb Ifor Bach ar gyfer y Llwyfan Acwstig.

Am fwy o wybodaeth am artistiaid Tafwyl ewch i www.tafwyl.cymru

Ysgol Evan James (Tudalen 12)

Pencadlys yr Heddlu
Dydd Gŵyl Dewi

Gwyn Morgan yn y Sgwod Sgwennu

Y Tîm Pêl-rwyd

Diwrnod y Llyfr

Diwrnod Sanau Doniol

Ysgol Dolau (Tudalen 8)

Dydd Gŵyl Dewi

Castell Caerffili

Hwyl fawr Dennis

Ysgol Creigiau

Disgyblion y Feithrinfa yn rhedeg i Sports Relief

Cystadlu brwd yn Eisteddfod yr Ysgol

Dathlu Diwrnod y Llyfr

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Llwyddiannau Chwaraeon Athletau

Llongyfarchiadau i Daniel John Blwyddyn 9 ar lwyddo i ennill y ras 300 medr yng nghystadleuaeth Athletau dan do Cymru. Hefyd, cystadlodd Daniel yng nghystadleuaeth traws gwlad SIAB gan gynrychioli Cymru yng Nghaeredin. Daeth Daniel yn 18fed yn y ras a daeth tîm Cymru yn ail.

Rygbi

Llongyfarchiadau i dîm rygbi Blwyddyn 10 ar ennill y darian ar gyfer cystadleuaeth 7 bob ochr ysgolion Pontypridd. Llwyddodd Blwyddyn 8 i ddod yn ail yn y gystadleuaeth.

Aeth tîm 6ed yr ysgol i Barc Roslyn yn Llundain yng nghanol mis Mawrth er mwyn cystadlu yn nhwrnamaint 7 bob ochr fwyaf Prydain. Dyma dwrnamaint cyntaf y tîm a bu'r tîm yn fuddugol mewn 2 gêm a chollant 2 gêm.

Bu timoedd rygbi Blwyddyn 8, 10 a'r tîm 1af yn cystadlu yng nghystadlaethau 7 bob ochr Yr Urdd. Mae'r gystadleuaeth yn cynnwys ysgolion ar draws Cymru gyfan. Llwyddodd timoedd Blwyddyn 8 a 10 i gyrraedd y rowndiau terfynol sydd yn cynnwys y 10 ysgol orau yng Nghymru a llwyddodd y tîm 1af i gyrraedd rownd y 4 tîm olaf. Da iawn i'r bechgyn.

Dawnsio

Cystadlodd Isabell Price, Blwyddyn 10 ac Eliza Price, Blwyddyn 8 yn rowndiau terfynol NDP Twmblo Cymru yng Nghaerdydd ddydd Sul, 3ydd o Fawrth.

Daeth Eliza yn 5ed yng Nghymru a daeth Isabell yn 1af! Bydd Isabell nawr yn cynrychioli Cymru yn Rownd Derfynol Prydain ym Mirmingham ar yr 28ain o Fawrth. Da iawn Eliza a phob lwc Isabell.

Pêl-rwyd

Bu Georgia Jenkins ac Emily Poole Blwyddyn 11 yn cynrychioli Cymru ar ddechrau mis Mawrth yn Gibraltar. Llwyddodd Cymru i ddod yn 3ydd yn nhwrnamaint Ewrop.

Bu tîm blwyddyn 10 ac 11 yn chwarae yng Nghaerdydd yn erbyn ysgolion y De Ddwyrain a bu'r tîm yn llwyddiannus gan ennill y twrnamaint. Trechodd y tîm Llanhari yn y rownd derfynol o 15 i 9.

Eisteddfod Sir Yr Urdd

Cafwyd llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd ar y 16eg o Fawrth yn neuadd y dref Maesteg. Canlyniadau'r diwrnod:

Unawd Alaw Werin bl.7-9 Brengain Rhys 1af
Llefaru unigol bl.7-9 Efan Fariclough 1af
Dawns disgo unigol bl.7-9 Natasha Stone 1af
Ymgom bl.7-9 1af
Grŵp llefaru bl.7-9 1af
Pob lwc i bawb yn Y Fflint!

Cynhadledd ar gyfer gwaith ieuenctid Cymru

Gwahoddwyd Cameron Keatley, Blwyddyn 11 i siarad mewn cynhadledd i sôn am waith ieuenctid Cymru o flaen 200 o bobl i drafod y gwahaniaeth mae'r ddarpariaeth YEPS wedi gwneud iddo fe. Roedd yr Athro Graham Donaldson, Steve Davies (Cyfarwyddwr Grŵp - Grŵp Safonau Ysgol, Llywodraeth Cymru) a Sally Holland, Comisiynydd i Blant Cymru yn bresennol yn y gynhadledd. Da iawn ti.

Llun gan gyn ddisgybl Garth Olwg yn cyrraedd y gofod!

Peintiodd Jess Angus cyn ddisgybl a adawodd Blwyddyn 13 llynedd lun o Tim Peake a'i anfon ato dros drydar. Gweler ymateb Tim Peake o'r gofod i Jess!

Taith yr Adran Gelf i Florence (Tudalen 14)

Alldaith Dug Caeredin (Llun tudalen 16)

Roeddwn i bron a rhoi'r ffidl yn y to ar ôl yr alldaith gyntaf ymarferol. Ond, penderfynais i ddal ati a thrio eto. Brwydrais i ymlaen gan orffen yr alldaith go iawn hefyd. Dydw i ddim yn berson heini iawn ond gyda chymorth fy ffrindiau a fy ngrŵp fe lwyddais. Cefais i lawer mwy na dim ond blisters! Cyflawnais i asesiad risg lefel 2 sydd yn gallu mynd ar fy C.V fel y Dug Caeredin hefyd. Bydd y sgiliau a ddefnyddiais ar yr alldaith a'r paratoi hefyd yn fy helpu yn y dyfodol i gael swydd. Mewn cyfweliad ar gyfer swydd mae'n well i fod yn berson sy'n gallu cyfathrebu ac mae'r wobr yma wedi rhoi mwy o hyder i mi wrth wneud hyn. Yn ogystal â gwella fy sgiliau bocsio, cefais i swydd yn Tesco ar ôl gwirfoddoli yno am dri mis. Ar gyfer y cyfweliad defnyddiais i'r sgiliau o'r alldaith fel cyd-weithio gyda phobl newydd, gwneud y penderfyniadau cywir mewn grŵp a threfnu amser - yn enwedig ar ben y llwyth gwaith TGAU a gwaith cwrs pob wythnos. Wrth edrych yn ôl, mwynheais i'n fawr iawn a dylai pawb fanteisio ar y cyfle euraidd hwn. Gan Beccan Hills Bl.11

Dyma restr o'r disgyblion a lwyddodd i ennill gwobr Dug Caeredin:

Gwobr Efydd

Morgan Archer, Carys Bowen, Caitlyn Brown, Stephen Burton, Morgan Cockram, Ieuan Davies, Elena Edwards, Ben Garwood, Osian Gruffydd, Abigail Hill, Beccan Hills, Georgia Jenkins, Haf James, Niamh Jenkins, Ashleigh Jones, Celyn Jones, Iestyn Jones, Cameron Keatley, Luchia Moriarty, Emily Poole, Layla Powell, Sam Richards, Elis Sharp, Amy Stanton, Tomas Taylor, Jamie Thomas, Daniel Townley-Keogh, Ieuan Vincet, Lucas Watts, Ethan Williams, Thomas Williams

Gwobr Arian

Ffion Edwards, Carys Rees, Olive Thomas

Ysgol Llanhari

O Tudalen 9

Pobathon

Ymweliad Castell Caerffili

Diwrnod y Llyfr
Dathlwyd Diwrnod y Llyfr eleni gyda disgyblion yn gwisgo fel eu hoff gymeriadau o wahanol storïau. Roedd y Matilda, Sali Mali, Yr Hugain Fach Goch ac hyd yn oed y Rhiain Gwsg wedi ymweld â'r ysgol!!! Diolch i bob un am eu hymdrechion - roeddech chi gyd yn edrych yn wych!

Merched a Mathemateg!
Braf oedd croesawu cynrychiolydd o Wales and West Utilities i'r ysgol i drafod gyrfaeodd ym myd Mathemateg i ferched bl9&10 ar ddechrau mis Mawrth. Diolch am y cyfraniad hynod ddiddorol ganddi hi. Rydym yn ddiolchgar i STEM maent yn cynnig profiadau gwerthfawr ychwanegol i'r disgyblion.

Theatr Mewn Addysg
Gwahoddwyd cwmni Theatr Spectacle i'r ysgol yn ddiweddar i berfformio'r sioe "Spesial" i ddisgyblion blynyddoedd 9 a 10 ar y thema seibr fwlio. Roedd yn berfformiad trawiadol iawn a braf oedd cael y cyfle i drafod y cynnwys mewn gweithdai yn dilyn y cynhyrchiad. Diolch i Fenter Rhondda Cynon Taf am eu cymorth yn sicrhau'r perfformiad yn yr ysgol.

Maes Awyr Llanhari
Roedd y plant wedi gwirioni yn gweld y maes awyr newydd yn neuadd yr ysgol! Cafodd bob un tro o fynd trwy'r dderbynfa a'r ardal ddiogelwch, y lolfa aros cyn mynd ati i fynd ar awyren. Roedd Mrs Phillips a Mrs Thomas hefyd wedi mwynhau ymweld â'r Maes awyr a mynd ar eu gwyliau!!

Llwyddiant Chwaraeon diweddar
Llongyfarchiadau i dimau pêl-rwyd yr ysgol sydd wedi profi cryn lwyddiant yn ddiweddar. Daeth tîm blwyddyn 10 yn ail yng nghystadleuaeth Ann Smart yn ddiweddar ac yn ail hefyd mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Ymddiriedolaeth Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd. Anelu am y brig tro nesa fydd hi! Mae timau iau yr ysgol wedi bod yn llwyddiannus hefyd ac yn elwa o hyfforddiant Miss Wluka a Rhianydd Reynolds o flwyddyn 13. Da iawn chi!

Daeth tymor rygbi 7 bob ochr i ben yn llwyddiannus gyda bechgyn bl8 yn dod ar frig eu grwp ac yn cyrraedd ail ddiwrnod a rownd gogynderfynol cystadleuaeth 7 bob ochr ur Urdd. Ni fu cystal lwc i dîm blwyddyn 10 a thim hŷn y merched ond roeddem yn falch iawn o'r ymdrech gan bawb. Dyma'r tro cyntaf i dîm y merched gystadlu ac roedd yn brofiad gwych i chwarae yn erbyn timau yr academis a'r colegau.

Tîm Rygbi y Merched

Blwyddyn 8 yn dathlu!

Adeiladwyr Llanmoor
Buom yn ffodus iawn i groesawu Mr Matthew Grey o gartrefi Llanmoor i'r ysgol fore Mercher, Mawrth 17eg. Bu ef a'i gyd-weithwr yn dangos i'r plant sut i adeiladu wal yn gywir gan edrych ar y briciau a dysgu am bwrpas sment. Roeddent wrth eu boddau a byddant yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn adeiladu castell i Chi y ddraig. Diolch yn fawr i Mr Grey.

Gwobrwyo Disgyblion
Llongyfarchiadu i ddosabrth Gwion Gwiwer ar ennill y wobr presenoldeb gorau ysgol gyfan y tymor hwn. Yn yr adran uwchradd, braf oedd gwobrwyo cymaint o ddisgyblion blynyddoedd 7-10 am eu hymdrech academaidd ond hefyd am eu Cymreictod. Yn y llun gwelir Taliesin, Siwan, Iona a Dyfan, y disgyblion a enillodd wobr Cymreictod y tymor o flwyddyn 7.

Ponty yn herio Merthyr yn y baw a'r llaca

Mae Clwb Rygbi Pontypridd yn parhau i gystadlu am dri thlws, gyda diweddglo cyffrous i'r tymor yn y fantol.

Gydag ychydig dros fis o'r tymor eto i fynd, mae Ponty yn parhau o fewn cyrraedd ar frig Uwch Adran y Principality, ac wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan Her Fosters a rownd gynderfynol Cwpan SSE SWALEC.

Mae'r sefyllfa ar frig yr Uwch Adran yn hynod o glos, gyda phump neu chwe chlwb o fewn cyrraedd i ennill y teitl, a'r tri uchaf - Glyn Ebwy, Casnewydd a Pontypridd - yn fwyaf tebygol o fod yn bencampwyr.

Nid yw Ponty wedi gallu dominyddu'r adran fel y gwnaethant yn y tymhorau blaenorol, ac wedi colli pump o'u gemau hyd yn hyn. Colled a allai fod yn gostus iawn ar ddiwedd y tymor oedd hwnnw oddi cartref yng Nglyn Ebwy, o 8pt i 34 ar y 12fed o Fawrth.

Llwyddodd Ponty i gyrraedd rownd derfynol Cwpan Her Fosters ar ôl trechu'r hen elyn Caerdydd gartref ddydd Sul yr 20fed o Fawrth. Roedd y sgôr yn gyfartal 18pt yr un wedi'r wythdeg munud a'r gêm felly yn mynd i amser ychwanegol. Cais yr asgellwr Chris Clayton i Bontypridd oedd yr un tyngedfennol, yn sicrhau buddugoliaeth o 24pt i 18.

Bydd Ponty yn cwrdd â Bedwas yn y rownd derfynol ar y 9fed o Ebrill - y gêm i'w chwarae ar Faes y Bragdy Pen-y-bont.

Yn rownd y chwarteri Cwpan SSE SWALEC roedd Ponty wedi sicrhau gem gartref yn erbyn Merthyr, i'w chwarae ar ddydd Sadwrn y 26ain o Fawrth. Roedd diddordeb enfawr yn y gêm, yn enwedig wedi i'r miliwnydd Stan Thomas fuddsoddi arian sylweddol yng nghlwb Merthyr, gan adeiladu carfan gref yn cynnwys cyn chwaraewyr rhyngwaldol fel Andy Powell a David Bishop, a nifer o gyn chwaraewyr Pontypridd.

Daeth torf yn agos at 5,000 i Heol Sardis i wylio'r gêm, ond daeth y glaw mawr hefyd, gan wneud yr amodau chwarae bron yn amhosib. Disgynnodd dilyw yn ystod yr hanner cyntaf, gyda'r maes yn troi i fod yn for o laid.

Merthyr sgoriodd unig gais y gêm, ond maswr profiadol Ponty Ceri Sweeney yn cicio dwy gic gosb holl bwysig o ganol y llaca i sicrhau buddugoliaeth glos o 6pt i 5.

Bydd Ponty yn cwrdd ag enillwyr y gêm rhwng Glyn Ebwy a Llanymddyfri yn rownd gynderfynol Cwpan SSE SWALEC ar y 16eg o Ebrill.

Mae yna gemau mawr i ddod i Glwb Pontypridd dros yr wythnosau nesaf, gyda thynged y tymor cyfan yn y fantol.

I ddilyn hynt a helynt y tîm wrth gystadlu am y tlysau a'r cwpanau, galwch mewn i'r wefan: www.ponty.net

Gwobrwyon Dug Caeredin Ysgol Gyfun Garth Olwg (Tudalen 14)